

PWYLLGOR Y GRONFA DATBLYGU CYNALIADWY

24 Ionawr 2018

Yn bresennol: Mrs J James, y Cynghorydd M James, Mr AE Sangster, y Cynghorydd M Williams; Ms S Green, Mr P Howe (Cyngor Sir Penfro), Ms L Livock (Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro), Mr G Lloyd-Jones (Cyfoeth Naturiol Cymru) a Mrs J Mansfield.

(Swyddfa APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00am – 1.45pm)

1. Ymddiheuriadau am absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd K Doolin, y Cynghorydd S Yelland a Ms K Scott (PLANED).

2. Datgelu buddiant

Datgelodd Mrs J Mansfield fuddiant personol yn SDF 0376 Halen Dewi, a Mr AE Sangster yn SDF 0375 Pŵer Sir Benfro, ond arhosodd y ddau yn y cyfarfod, gan chwarae rhan lawn yn y trafodaethau ar y ddau gais.

4. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2017 i'w cadarnhau a'u llofnodi.

PENDERFYNWYD cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Hydref 2017.

5. Adroddiad am y Diweddaraf am y Gronfa Datblygu Cynaliadwy

Roedd adroddiad Gweinyddwr y Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn amlinellu'r pum cais a oedd gerbron y Pwyllgor i'w hystyried y diwrnod hwnnw. Roedd yr adroddiad hefyd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr holl brosiectau cyfredol, a chynnydd y prosiectau hynny.

Yna, soniodd Gweinyddwr y Gronfa Datblygu Cynaliadwy am y sefyllfa ariannol a oedd yn dangos bod £36,762 o gyllid heb ei neilltuo ar gael ar gyfer prosiectau newydd. Roedd y ceisiadau a ddaeth i law yn gofyn am £39,791 yn 2017-18, £24,097 yn 2018-19 a £5,603 yn 2019-20. Felly, os penderfynir bod yr holl brosiectau dan ystyriaeth yn deilwng o gael cymorth, byddai ychydig yn ormod o arian wedi'i ymrwymo ar gyfer 2017-18, ond roedd y diffyg, sef £3,029, yn fach a byddai'r Awdurdod yn talu hwnnw.

O ran cynllun y Grant Bach Gwyrdd, daeth tri chais i law yn 2017-18, er mai dim ond un o'r rheini a gafodd ei gymeradwyo. Felly, roedd £3,000

yn weddill i'w ddyrannu i brosiectau'r Grant Bach Gwyrdd. Soniwyd mai Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro oedd yn gweinyddu'r cynllun hwn, a dywedodd Ms Livock fod tri chais arall wedi'u cyflwyno cyn y dyddiad cau diwethaf, a bod y rheini'n cael eu trafod ar hyn o bryd.

Aeth Gweinyddwr y Gronfa Datblygu Cynaliadwy rhagddi i esbonio y byddai'n gadael Awdurdod y Parc Cenedlaethol ddiwedd mis Ionawr 2018, ac y disgwyli'r penderfyniad maes o law ynghylch dyfodol ei swydd. Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw brosiectau i fwrw ymlaen â hwy ac atebodd y Gweinyddwr ei bod wedi bod yn bresennol mewn ffair ariannu ym mis Tachwedd, lle cafodd wybod am naw prosiect newydd posibl.

NODWYD.

6. Ceisiadau am gyllid o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy

Trafododd y Pwyllgor bum cais newydd am gyllid o'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Ystyriwyd y ceisiadau'n fanwl ar sail y meini prawf ar gyfer asesu'r gronfa, yn dilyn cyflwyniad byr gan bob un o'r ymgeiswyr.

Atgoffwyd yr Aelodau gan Weinyddwr y Gronfa fod nifer o'r ceisiadau a oedd ar yr agenda y diwrnod hwnnw yn cynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif, ac na ddylid ei rhannu na'i dosbarthu'n ehangach.

Cyfeirnod	Enw'r Prosiect	Cyflwynwyd gan	Sefydliad
SDF 0373	Gwasanaethau Coetir De Sir Benfro	Murray Taylor	Gwasanaethau Coetir De Sir Benfro
SDF 0375	Pŵer Sir Benfro	Barry John Marten Lewis	VC Gallery
SDF 0376	Halen Dewi Cam 2	Ben Lloyd	Halen Dewi
SDF 0377	Astudiaeth o ddichonoldeb carotenidau	Alex Mühlhölzl	Mikota Ltd
SDF 0378	Siop deithiol dillad syrffio iSea a chanolfan glanhau traethau	Anna Strzelecki	iSea Surfwear a Surfers Against Sewage

Atgoffwyd y Pwyllgor gan y Cadeirydd fod cylch gorchwyl y Pwyllgor yn pennu mai Aelodau Awdurdod y Parc Cenedlaethol oedd i benderfynu, gan gymryd i ystyriaeth safbwyntiau'r Aelodau Cynghorol hynny a oedd yn bresennol.

Ar ôl trafod, **PENDERFYNWYD** fel a ganlyn:

- (a) bod y swm cyfan o gyllid y gofynnwyd amdano yn cael ei roi i'r ceisiadau a ganlyn, yn ddarostyngedig i amodau arferol y grant:
 - (i) SDF 0373 - Gwasanaethau Coetir De Sir Benfro – ar yr amod bod y busnes yn llwyddo yn ei gais am Grant Cynllun Buddsoddi Busnes Pren gan WEFO
 - (ii) SDF 0375 – Pŵer Sir Benfro
 - (iii) SDF 0376 – Halen Dewi Cam 2
 - (iv) SDF 0377 – Astudiaeth o ddichonolrwydd carotenidau

- (b) bod y cais a ganlyn yn cael ei ohirio tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor:
 - (i) SDF 0378 – Siop deithiol dillad syrffio iSea a chanolfan glanhau traethau – er mwyn rhoi cyfle i'r ymgeisydd ddarparu rhagor o wybodaeth am ei gynllun busnes.